# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 26/09/2022 7:00yh – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| David Andrew Parry (Cad) | Thomas Victor Jones | William Roger Jones | Hywel James Sinclair Evans |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Alaw Ceris | Ian Goronwy Williams |
| Greta Hughes | Ann L. Williams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) | |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.
Cydymdeimlodd y cadeirydd hefo Greta Hughes a Gwenllian Davenport Hughes ar eu profedigaeth ddiweddar o golli gŵr a thad a diolchodd y ddwy ohonynt i bawb am yr holl gardiau a'r geiriau caredig.

1. **Ymddiheuriadau**
   John Brinley Jones.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 25/07/2022**
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: Ian Goronwy Williams          Eilio: William Roger Jones

   Materion yn codi o'r cofnodion
   1. Arwyddion busnes yn y pentref
      Nid oes dim diweddariad wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r arwyddion felly mae'r clerc am gysylltu hefo nhw eto.
   2. Mae'r clerc wedi cael cadarnhad drwy ebost gan Cyngor Gwynedd eu bod wedi torri'r berth oedd ar y palmant o flaen Glyn y Weddw.
   3. Wal y Fynwent
      Mae'r cadeirydd wedi cyfarfod un contractwr yn y fynwent ond fe gadarnhaodd dros y ffôn i'r clerc nad oedd ganddo ddiddordeb mewn cyflwyno pris am ei thrwsio. Mae'r cadeirydd eisiau trefnu cyfarfod contractwr arall yno eto.
   4. Gweithdai Ardal Ni
      Gohiriwyd y cyfarfod oedd wedi ei drefnu tan mis Hydref ac fe fydd David Andrew Parry ac Ian Goronwy Williams yn mynychu.
   5. Ail baentio'r plac sy'n coffau agor y lôn newydd a'r plac sydd wrth y ffynnon
      Mae'r gwaith yma wedi cael ei wneud gan Roger Fisher.
   6. Cais i roi carreg goffa ar y wal ym mynwent Llanbedrog
      Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Tony Vowell ynglŷn â'r garreg goffa ac felly mae'n gwybod lle i'w rhoi ar mesuriadau a ganiateir.
   7. Torri llecynnau o gwmpas y pentref
      Fe fydd rhaid ail edrych ar y tendar ym mhwyllgor mis Hydref.
   8. Adolygu ffioedd claddu

Fe fydd y ffioedd yn cael eu adolygu ym mhwyllgor mis Tachwedd ond fe fydd rhaid cofio os y bydd y ffioedd yn cael eu codi a mwy o arian yn dod i fewn fe fydd yn effeithio ar y Praesept.

9. Mae cwmni teledu Boom Cymru yn ddiolchgar iawn am gael menthyg y cadeiriau o'r neuadd ar gyfer priodas pum mil ac yn cadarnhau y bydd cydnabyddiaeth yn cael ei roi i Cyngor Cymuned Llanbedrog ar y rhaglen i ddiolch iddynt. Fe aeth bob dim yn iawn ar y diwrnod.
10. Mae'r clerc wedi holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â cael cysgodfan bws newydd yn maes parcio Cil Dwrn ond nid oes arian gan y Llywodraeth i adnewydd llochesi bws mwyach ac nid oes rhai ail law ar gael ychwaith felly fe fydd rhaid gofyn i Roger Fisher i beintio'r lloches yn wyrdd, llnau y persbecs a cael gwared o'r tyfiant sydd o'i amgylch.

**4. Unrhyw Fater Brys**

Dim.

**5. Cyfarfod Penrhos hefo Clwyd Alun**

Mae'r aelodau yn teimlo ei fod yn gyfarfod positif iawn er bod pryderon yn dal i fod. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans ei fod yn siomedig nad ydynt am adeiladu cartref preswyl ac nad oes darpariaeth ar gyfer hyn yn y cynllun ac mae Greta Hughes a Thomas Victor Jones yn cytuno. Dywedwyd yn y cyfarfod mai'r Awdurdod Iechyd a'r Llywodraeth fydd yn gyfrifol am y cartref preswyl o hyn allan ac maent yn paratoi safle ar ei gyfer. Fe fydd rhaid aros rwan nes y bydd cais cynllunio wedi ei dderbyn yn ffurfiol a pan ddaw y cynlluniau i law fe fydd rhaid i ddal i bwyso am y cartref preswyl.

**6. Rhestr Waith i Roger Fisher**

Mae'r clerc am basio rhestr waith ymlaen i'r cadeirydd iddo ei roi i Roger Fisher sef:

- Symud y fainc sydd o flaen y neuadd i'w lleoliad newydd unwaith y bydd y clerc wedi cael caniatad gan y tir feddiannwr,
- Trwsio'r twll o flaen y neuadd
- Peintio lloches bws maes parcio Cil Dwrn yn wyrdd, llnau y persbecs a cael gwared o'r tyfiant sydd o'i amgylch.
- Gosod arwyddion y diffib yn y lleoliadau canlynol:
  1. Drost y ffordd i'r ysgol
  2. Wrth yr hysbysfwrdd sydd rhwng yr ysgol a neuadd y pentref
  3. Wrth ymyl Neuadd y pentref
  4. Wrth ymyl fflatiau Cae Gwyn
  5. Wrth ymyl lloches bws maes parcio Cil Dwrn
  6. Ar Lôn Pen Bryn
  7. Tu allan i'r Ship

Os yw'r aelodau yn meddwl am fwy o bethau sydd angen eu gwneud o gwmpas y pentref yna iddynt adael i'r clerc wybod er mwyn ei basio ymlaen i Roger Fisher.

**7. Cau Banc Lloyds – ebost Cyngor Tref Pwllheli**

Mae cangen Lloyds Pwllheli yn cau ym mis Ionawr 2023 ac mae cyfrif banc Cyngor Cymuned Llanbedrog yn Lloyds felly mae'n rhaid penderfynnu beth i'w wneud. Derbyniwyd llythyr gan

Cyngor Tref Pwllheli nôl yn mis Gorffennaf yn gofyn i gynghorau cymuned a thref lythyru Lloyds yn gofyn iddynt ail feddwl ac mae'r clerc wedi cael diweddariad ganddynt eu bod wedi cyfarfod hefo'r banc ac nid ydynt am ail feddwl ac fe fydd y gangen yn cau ym mis Ionawr. Cafwyd cynnig i symud arian y Cyngor Cymuned o Lloyds i'r cyfrif sydd ganddom yn Nat West yn barod. Gofynodd Greta Hughes i'r clerc faint fydd y cyfanswm rhwng y ddau gyfrif yn Nat West wedyn oherwydd dim ond tua £80 mil mae'r banciau yn gyfro petaent yn torri. Fe fydd y cyfanswm yn fwy na'r ffigwr yma felly mae'r clerc am fynd i Nat West i holi ac adrodd yn ôl i bwyllgor Hydref.

**8. Adolygu yr Asesiad Risc**

Nid oes neb wedi cael cyfle i edrych ar yr Asesiad Risc ac felly fe fydd rhaid ei roi ar agenda mis Hydref. Dywedodd Greta Hughes y byddai'n well trefnu cyfarfod ar wahan i fynd drwy'r risciau i gyd ac yna ei adolygu'n flynyddol neu bob dwy flynedd.
Penderfyniad: pawb i edrych drwy'r Asesiad Risc ac ym mhwyllgor mis Hydref trefnu cyfarfod ar wahan i'w drafod, cytunodd Gwenllian Davenport Hughes i wneud doodle poll bryd hynny.
Cynnig: David Andrew Parry   Eilio: Greta Hughes

**9. <u>Llwybrau</u>**

<u>Lleoli mainc newydd sydd gan y Cynghorydd Angela Russell.</u>
Mae'r fainc dal o flaen y Neuadd felly mae angen penderfynnu lle i'w rhoi. Cafwyd cynnig gan Greta Hughes i'w lleoli yng Ngharreg y Defaid wrth y llwybr ac uwchben allt y môr, ochor Pwllheli. Bydd rhaid cael caniatad y tir feddiannwr ac mae'r clerc am gysylltu hefo fo ond yn gyntaf mae David Andrew Parry am yrru cynllun i'r clerc i ddangos yr union leoliad. Unwaith y bydd caniatad wedi ei dderbyn yna fe fydd yn rhaid gofyn i Roger Fisher symud y fainc yno a'i lleoli yn saff mewn sylfaen concrit.
<u>Llwybr Trwy'r Nant ochor y cae chwarae i'r cwrt pel fasged – cwyn gan y Cynghorydd Angela Russell</u>
Derbyniodd y clerc gwyn gan y Cynghorydd Angela Russell nôl ym mis Gorffennaf bod golwg ar Lwybr Trwy'r Nant ochor y cae chwarae i'r cwrt pel fasged a gan nad oes cyfarfod wedi bod ers hynny nid yw'r clerc yn gwybod os yw wedi cael ei dorri erbyn hyn. Dywedodd Alaw Ceris nad yw'r llwybr yma yn lwybr ffurfiol ac mai pobol sydd wedi ei greu wrth gerdded y ffordd honno felly nid yw'r llwybr yma ar y rhestr tendr y Cyngor Cymuned. Cynigiodd Ian Goronwy Williams fynd yno i weld ac i adael i'r clerc wybod a cytunodd yr aelodau i'r clerc ofyn i'r contractwr ei dorri fel gwaith ychwanegol.

**10. <u>Y Fynwent</u>**

Mae'r cadeirydd wedi ysgrifennu ddwy waith i Dwr Cymru ynglŷn â cais cynllunio'r fynwent newydd ond nid ydynt wedi cysyllt yn ôl ac erbyn hyn mae 6 mis wedi pasio. Ceisiwyd trefnu cyfarfod yn y neuadd rhwng yr aelodau i fynd drwy'r cynlluniau ddwy waith yn ystod yr haf ond yn anffodus nid oedd pawb ar gael ar unrhyw ddyddiad felly fe fydd rhaid trefnu cyfarfod cyn gynted a phosibl. Mae cyfarfod wedi cael ei drefnu yn y neuadd ar nos Lun y 10fed o Hydref am 7 o'r gloch. Mae Hywel James Sinclair Evans am yrru cynllun o leoliad y beipan i'r clerc iddi ei anfon ymlaen i'r aelodau cyn y pwyllgor.

**11. Cae chwarae**

Peiriant torri gwair newydd

Diolchodd y cadeirydd i Alaw Ceris am gael y peiriant torri gwair newydd, mae'r peiriant newydd yn saff yn y garej ar ôl i Roger Fisher drwsio'r ffram drws a'r clo. Diolchodd iddi hefyd am drefnu y gweithgareddau dros yr haf, 'roeddynt yn llwyddiant mawr. Diolchodd hefyd i Deiniol a Glyn am dorri'r gwellt cyn i'r peiriant newydd gyrraedd. Gofynnodd Greta Hughes pwy oedd yn gyfrifol am yswirio'r peiriant newydd a cadarnhaodd Alaw Ceris a'r Clerc ei fod o dan yswiriant y Cyngor Cymuned. Gofynnodd y cadeirydd beth sydd yn digwydd hefo gorffen ffensio'r cae chwarae ac mae Alaw Ceris yn disgwyl i North Wales Ffencing ddod yn ôl ati yn dilyn derbyn y dyfynbris. Mae yna dri postyn wedi cael ei roi i fyny ers y llynedd i'r chwith o'r giat gan y cadeirydd a'r is-gadeirydd i drio cau y darn yna i fyny ond nid yw'r gwaith wedi cael ei orffen felly gofynnodd y cadeirydd os yw'r aelodau eisiau i Roger Fisher orffen y darn yma neu gadael bob dim i North Wales Ffencing. Penderfynwyd i adael y gwaith yma i gyd i North Wales Ffencing. Awgrymodd Hywel James Sinclair Evans i Alaw Ceris gysylltu hefo Llŷn Ffencing i gael pris arall gan fod North Wales Ffencing yn araf yn cysylltu'n ôl. Dywedodd Alaw Ceris bod yna ddipyn o eitemau i fewn yn y garej megis meinciau, hen bren, rwbal a compost a gofynnodd os oedd rhywun eisiau mynd yna i weld yr eitemau a penderfynnu beth i wneud hefo nhw gan ei bod eisiau clirio'r garej. Cytunodd bawb i adael i Alaw Ceris glirio'r garej ac iddi hi benderfynnu beth i wneud hefo'r eitemau ond i dynnu lluniau o'r meinciau er mwyn cael hyd i le iddynt yn y pentref. Mae hi am adael i'r aelodau wybod pa bryd fydd hyn yn digwydd rhag ofn y bydd rhywun eisiau mynd yno i weld beth sydd yn y garej.

**12. Neuadd y Pentref**

Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd.

Trefnwyd pwyllgor yn y neuadd i drafod ail-sefydlu pwyllgor ar gyfer y neuadd gan Ian Goronwy Williams a Patricia Hope-Whitney a tua chwech arall i ddechrau trafod y mater ac yn dilyn hyn mae pwyllgor pellach wedi ei drefnu yn y neuadd ar yr 12$^{fed}$ o Hydref sydd yn agored i bawb gan obeithio sefydlu pwyllgor ffurfiol i gario'r gwaith ymlaen. Diolchodd y cadeirydd i Gwenllian Davenport Hughes am y poster sydd wedi cael ei rannu gyda'r aelodau ac ar y wefan a facebook yn hysbysebu'r pwyllgor yma.

Codi prisiau llogi'r neuadd.

Ei roi ar agenda mis Hydref er mwyn aros tan ar ôl y cyfarfod yn y neuadd ar y 12$^{fed}$ o Hydref.

Cyflwr Maes Parcio y Neuadd – cwyn gan y Cynghorydd Angela Russell

Derbyniodd y clerc y gwyn yma hefyd gan y Cynghorydd Angela Russell nôl yn mis Gorffennaf ac 'roedd hi'n bryderus iawn ynglŷn â'r twll sydd o flaen maes parcio'r neuadd ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned drefnu ei drwsio rhag ofn i rhywun frifo. Penderfynwyd ei roi ar restr waith Roger Fisher.

Arwyddion y Diffib

Mae Alaw Ceris wedi cael hyd i arwyddion yn y neuadd sy'n pwyntio at y diffib agosaf ac yn meddwl y bysai'n syniad da eu lleoli o gwmpas y pentref i bobol gael gwybod fod yna un y tu allan i'r neuadd. Nid oes pwynt eu rhoi yn is na'r ysgol gan fod yna ddiffib yn y fferyllfa yng ngwaelod y pentref felly awgrymwyd y lleoliadau canlynol:

1. Drost y ffordd i'r ysgol
2. Wrth yr hysbysfwrdd sydd rhwng yr ysgol a neuadd y pentref
3. Wrth ymyl Neuadd y pentref
4. Wrth ymyl fflatiau Cae Gwyn
5. Wrth ymyl lloches bws maes parcio Cil Dwrn
6. Ar Lôn Pen Bryn
7. Tu allan i'r Ship

Mae'r clerc am eu ychwanegu i restr waith Roger Fisher.

Gofynodd Ian Goronwy Williams os yw'r diffib wedi cael ei gofrestru yn rhywle a dywedodd y clerc ei fod wedi cael ei gofrestru ar wefan y 'Circuit' gan y Gwasanaeth Ambiwlans a'i bod yn cael ebyst i ddweud pan fydd wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r clerc wedyn yn mynd i Lanbedrog i wneud yn siwr ei fod wedi cael ei roi yn ôl yn y cabinet a bod y batris dal yn iawn ac edrych os oes angen rhoi cyflenwad newydd o'r padiau os ydynt wedi cael eu defnyddio. Mae hi hefyd yn cael ebyst bob tri mis i'w atgoffa i fynd weld os yw'r padiau dal mewn dyddiad a bod y batris yn iawn. Diolchodd yr aelodau i'r clerc am ei gwaith hefo'r diffib.

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£416.00** |
| **HMRC –** PAYE Mis 6 | **£104.00** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£150.00** |
| **PPM Technology** – Paent i Roger Fisher | **£33.60** |
| **Roger Fisher** – Peintio meinciau | **£270.00** |

Taliadau wedi eu derbyn

Dim.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C22/0835/38/DT –** Croesffordd, Llanbedrog - Estyniadau ac addasiadau bwriedig i dŷ presennol ynghyd ac adeiladu dau adeilad gardd/gemau allanol ar wahan (diwygiad i C22/0187/38/DT)

Penderfyniad: Gwrthod – rhoi yr un rhesymau gwrthod a'r cais blaenorol sef:

1. Mae Croesffordd yn barod yn uwch na'r tai unllawr cyfagos ac yn weladwy o'r AHNE. Byddai gwireddu'r cynlluniau yn orddatblygiad o safle sydd eisoes yn weladwy o sawl cyfeiriad gan gynnwys o'r môr a Mynydd Tir y Cwmwd sydd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
2. Byddai'r datblygiad yn gwbl newid cymeriad y ty ac yn gosod cynsail peryglys o adeiladu tai llawer mwy na'r hyn sydd ar y safle gwreiddiol. Dim ond angen edrych tair milltir i lawr y ffordd tuag at Abersoch i weld y canlyniad ar y golygfeydd a'r gymuned.
3. Byddai'r datblygiad yma hefyd yn cael effaith andwyol ar drigolion cyfagos o ran preifatrwydd, golau a swn.
4. Nid oes dim newid rhwng cynlluniau y cais blaenorol sef C22/0187/38/DT a'r cais yma.

Cynnig: David Andrew Parry          Eilio: Hywel James Sinclair Evans

**C22/0798/38/DT –** Rhos y Grug, Ffordd Pedrog – Dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniadau newydd rhannol unllawr a deulawr yn ei le ynghŷd â chreu canopi dros ddrws yr edrychiad blaen.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Ian Goronwy Williams

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.
Dim.

**Cais am gyfraniad**
Dim.

Mae Greta Hughes wedi sylwi fod coeden wedi malu powltiau sydd yn dal carreg fedd yn y fynwent ac felly mae'r garreg wedi cael ei rhoi ar lawr ac mae golwg ar y bedd. Gan ei fod yn hen fedd nid oes teulu ar ôl bellach i edrych ar ei ôl ac felly fe fydd rhaid gwneud rhwybeth. Cynigiodd Thomas Victor Jones fynd i'r fynwent hefo Greta Hughes i'w gweld a tynnu lluniau a'u hanfon i'r clerc ac iddi hi eu pasio ymlaen i'r aelodau.

Mae'r clerc wedi derbyn anfoneb Dŵr Cymru sef yr un cyntaf ers i fesurydd dŵr gael ei roi yn y fynwent ac eisiau i'r aelodau wybod beth yw'r gwahaniaeth mewn prisiau. Cyn cael mesurydd 'roedd yr anfoneb blynyddol o gwmpas £105 - £110 ac mae'r anfoneb cyntaf ar ôl cael mesurydd am gyfnod o chwech mis yn £19.70 felly 'roedd y cynnig o gael mesurydd dŵr yn syniad da. Mae cyfrif y Cyngor Cymuned hefo Dŵr Cymru mewn credyd o £91.96 felly ni fydd angen talu am hir iawn.

Derbyniwyd cwyn gan Thomas Victor Jones am y tŷ sydd drost y ffordd a'r ysgol sef Birkdale, bod gwaith yn mynd ymlaen yn y garej yno ac yn debyg fel bod y garej yn cael ei droi yn fyngalo ac nid oes cais cynllunio wedi cael ei roi i mewn. Mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd wedi bod yn edrych ar wefan Cyngor Gwynedd ac mae'n debyg fod cais cynllunio ar ei ffordd i fewn ar ei gyfer. Mae Ian Goronwy Williams yn meddwl fod rhywun o Cyngor Gwynedd wedi bod allan ar y safle yn barod ac mai dyna pam fod y gwaith wedi stopio yno. Fe fydd rhaid aros nes y bydd cais wedi cael ei gyflwyno ac fe fydd cyfle i'w drafod bryd hynny.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.22yh.